

# Adroddiad Blynyddol Drafft ar 'Wasanaethau Cymdeithasol' 2015 / 2016

Mae'r Adroddiad hwn ar gael mewn ieithoedd a  
fformatau eraill ar gais.

E-bost: [ACRF@merthyr.gov.uk](mailto:ACRF@merthyr.gov.uk)

Ffôn: (01685) 725052

[www.merthyr.gov.uk/ACRF](http://www.merthyr.gov.uk/ACRF)



# Cynnwys

## Adran 1: Croeso a Chyflwyniad

3 4

## Adran 2: Pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn perfformio a beth gallwn ni wneud yn well?

5 24

- Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed 5 - 9
- Gwasanaethau i Oedolion 10 - 15
- Gwasanaethau i Blant 16 - 21
- Rheoli ein Busnes 22 - 24

## Adran 3: Gwerthfawrogi eich Barn

25

- Cysylltu â ni 25

## Adran 1: Croeso a Chyflwyniad

Fel Prif Swyddog (Cyfarwyddwr Statudol) Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, un rhan o'm swydd yw cyflwyno adroddiad i chi bob blwyddyn ar ba mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn gweithio. Yn fy adroddiad, byddaf yn amlinellu'r canlynol:

- Perfformiad rhai o'n gwasanaethau allweddol;
- Datblygiadau a heriau drwy gydol y flwyddyn;
- Ein blaenoriaethau – beth fyddwn ni'n ei wneud dros y 12 mis nesaf.

Rydym yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol ac wedi bod yn gweithio'n galed i gyflawni'r arbedion y mae'r Cyngor eu hangen tra'n gwneud ein gorau i sicrhau nad yw hynny'n effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau a ddarparwn i chi. Ar y cyfan, rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn.

Ym mis Ebrill 2016, cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei gweithredu. Dyma ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth wedi'i chynllunio i newid y berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol, ei sefydliadau partner a chi. Rydym wedi gwneud llawer o waith i baratoi at hyn ac rwyf wedi cyfeirio at y Ddeddf drwy gydol yr adroddiad.

Mae gan y Ddeddf bum prif thema, sef:

- Bydd gennych chi lais, byddwch mewn rheolaeth ac yn gwneud penderfyniadau am eich bywyd;
- Byddwn ni'n gweithio gyda chi i'ch cadw'n iach ac i weld pryd bydd angen cymorth arnoch;
- Byddwn ni'n gweithio gyda chi i'ch helpu er mwyn i chi gael yr un sy'n bwysig i chi;
- Byddwch chi'n cymryd rhan i benderfynu ar eich gofal a'ch cymorth a'r ffordd y cânt eu darparu;
- Bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i'ch helpu i fyw y bywyd rydych yn ei ddewis am hirach.

Mae hyn yn golygu, pa bynnag math o ofal a chymorth sydd eu hangen arnoch, byddwn ni'n dechrau drwy ofyn beth sy'n bwysig i chi o ran eich perthynas, eich cymuned a'ch bywyd a byddwn ni'n canolbwyntio ar eich lles ac ansawdd bywyd.

Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd, o fis Ebrill 2016, bydd y wybodaeth a gasglwn a'r ffordd rydym yn ei chasglu yn newid. Bydd angen i ni bellach gasglu gwybodaeth ychwanegol ac adrodd ar y gwahaniaeth a wnawn i fywydau pobl.

Er bod y galw am wasanaethau i oedolion a phlant yn parhau yn uchel, ar y cyfan, mae ein perfformiad yn y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2015/2016 wedi parhau i fod yn dda ar y cyfan. Mae hyn yn sgil gwaith caled ac ymrwymiad ein staff sy'n ymfalchïo yn gwasanaethu eu cymuned leol.

Mae ein gwaith ar draws y rhanbarth i wella gwasanaethau gan ddefnyddio'r Gronfa Gofal Canolradd wedi parhau eleni. Mae gennym Gydgyssylltwyr Cymunedol ar waith i helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau yn y Sector Gwirfoddol ac wedi gwella Gwasanaeth Rhyddhau Strôc Cynnar. Mae'r Hwb Amddiffyn Aml-asiantaeth (MASH) wedi bod yn gweithredu bellach ers 12 mis ac wedi ennill Gwobrau am ei berfformiad. Rydym yn parhau i weithio'n rhanbarthol wrth gomisiynu gwasanaethau eang. Rydym wedi llunio Datganiad Comisiynu rhanbarthol ar y cyd ac ar hyn o bryd rydym yn tendro am Wasanaeth Gofal Cartref rhanbarthol.

Mae ein gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth i'r teulu yn wynebu sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth a heriol wrth iddynt fynd ati i wneud gwaith heriol o amddiffyn pobl ifanc a chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo canlyniadau rhagorol. Gan weithredu ein Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal, er ei bod yn ystod ei chymau cyntaf, rydym yn gweld lleihad yn nifer y plant rydym yn gofalu amdanynt. Mae'r Gwasanaeth Plentyn mewn Angen Uwch yn parhau i fod yn llwyddiant ac, yn 2015, symudodd i ganolfan newydd sy'n cynnig mwy o le a gwell cyfleusterau i deuluoedd.

Fel pob Cyngor arall yng Nghymru, rydym yn parhau i wynebu'r angen i leihau faint o arian rydym yn ei wario. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod gan y Cyngor ymrwymiad parhaus i ddarparu adnoddau ychwanegol pan fo wir angen er mwyn diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau y gall ein gwasanaethau barhau i weithio'n effeithiol, diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned, wedi'i gydbwysu ochr yn ochr â'r ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau sy'n helpu pobl mewn cyfnod cynnar ac i atal pethau rhag gwaethygu.

### **Blaenoriaethau ar gyfer eleni.**

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Parhau i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned;
- Cynnal ein hymrwymiad i ymyrryd ac atal yn gynnar ym mhob rhan o'n gwaith;
- Gweithredu'r Fframwaith Mesurau Perfformiad newydd;
- Lle bynnag y bo'n bosibl, gwneud yr arbedion y gofynnir i ni wneud heb effeithio ar ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.

Edrychwch ar adrannau eraill fy adroddiad am enghreifftiau pellach o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros y 12 mis nesaf.

I gloi, hoffwn ddiolch yn bersonol i bob aelod o staff ymroddedig sydd wedi gweithio'n galed i ddiwallu anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned.



*Am Curtis Jones*

Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) – Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

## Adran 2: Pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn perfformio a beth y gallwn ei wneud yn well?

### Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed



Mae gan bob plentyn, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed hawl i fod yn ddiogel, hapus ac iach, ac yn haeddu cael eu hamddiffyn rhag cam-drin.

Mae amddiffyn yn cyfeirio at y rhai a allai fod yn agored i niwed. Gallai gynnwys:

- Plant o dan 18 oed;
- Pobl ag anabledd corfforol, gweledol, clywedol neu ddysgu;
- Pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael;
- Yr henoed, y bregus neu'r sâl;
- Y rhai sy'n byw mewn cartref sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn llwyddiannus yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr ar draws y Cyngor ac asiantaethau partner i wneud yn siŵr:

- Pan fyddwn ni'n cymryd staff newydd yn y Cyngor, maent yn ddiogel i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed;
- Mae ein cyflogeion, Cynghorwyr, ysgolion a'n partneriaid wedi parhau i gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i nodi arwyddion o gam-drin a gweld pa gamau y dylent eu cymryd;
- Rydym yn adolygu'n rheolaidd pa mor dda rydym yn perfformio i wneud yn siŵr bod ansawdd ein gwaith yn parhau i fod o safon dda;
- Rydym yn gwranddo ar farn pobl sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Mae hyn wedi parhau i'n helpu i wella'r ffordd rydym yn gweithio ac ansawdd y cymorth a ddarparwn.

Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi sefydlu Hwb Amddiffyn Aml-asiantaeth (MASH) i Amddiffyn Oedolion a Phlant. Cyn MASH, roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan bob asiantaeth yn unigol a'i rannu yn ôl yr angen. Bellach, mae'r holl bobl hyn wedi'u lleoli yn yr un lle a gallant rannu gwybodaeth ar unwaith. Mae hyn yn golygu y gallwn wella ein gallu i gydlynu, diogelu a chefnogi pobl sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'r MASH wedi bod yn gwbl weithredol ers mis Mai 2015 ac mae wedi ennill dwy wobwr gan Heddlu De Cymru am arloesedd a gweithio mewn partneriaeth. Gan fod y MASH bellach yn flwydd oed, mae asiantaethau partner wedi cytuno i gynnal adolygiad i sicrhau y gallwn barhau i wella perfformiad ac amddiffyn plant ac oedolion.

## Wyddech chi?



Mae gan Gwm Taf Fwrdd Amddiffyn Plant ac Oedolion, sy'n bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ac oedolion ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd yn monitro pa mor dda mae asiantaethau yn amddiffyn oedolion a phlant rhag cam-drin ac esgeulustod. Mae Bwrdd Amddiffyn Cwm Taf wedi lansio gwefan [www.cwmtafsafeguarding.org](http://www.cwmtafsafeguarding.org) Mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am yr ystod o faterion amddiffyn sy'n effeithio ar blant ac oedolion ac, yn bwysig, sut i nodi'r arwyddion rhybudd ac i gael cymorth pellach.

## Wyddech chi?

Mae'r 'Gofrestr Amddiffyn Plant' yn rhestr gyfrinachol o enwau o blant a phobl ifanc ar draws Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sydd mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod. Caiff y gofrestr ei chadw gan yr Uned Amddiffyn yng ngwasanaethau cymdeithasol ac mae cynllun aml-asiantaeth o amddiffyn i bob plentyn y mae ei enw yn cael ei ychwanegu i'r Gofrestr Amddiffyn Plant.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae nifer o enwau plant a ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant ym Merthyr Tudful wedi bod yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru. Gallai'r rheswm dros hyn fod am nifer o resymau, gan gynnwys: cyfraddau uchel o gam-drin yn y cartref, nifer y rhieni sy'n cael eu heffeithio gan faterion fel camddefnyddio sylweddau, camddefnyddio alcohol ac iechyd meddwl gwael. Ar 31 Rhagfyr 2015, roedd 91 o blant a phobl ifanc ar y 'Gofrestr Amddiffyn Plant'. Mae hyn fymryn yn is na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (106 o blant). Ein nod yw gweithio gyda theuluoedd yn gynnar i atal pethau rhag mynd yn waeth a lleihau risg a rhoi cymorth i bobl ifanc. Rydym yn sicrhau, pan gaiff enwau plant eu hychwanegu at y Gofrestr, na fydd eu henwau yn cael eu tynnu oddi arni tan y bydd newid sylweddol wedi bod i leihau'r perygl ac y bydd y newidiadau hynny yn para dros amser.

Pan fo pryder y gallai plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod, mae'n rhaid i ni gynnal cyfarfod â phawb dan sylw o fewn 15 diwrnod gwaith. Mae hyn er mwyn i ni allu penderfynu pa gymorth sydd ei angen ac i roi cynllun ar waith i amddiffyn y plentyn. Bob blwyddyn ers 2010 mae ein perfformiad wedi gwella. Fodd bynnag, mae gennym bellach ostyngiad bychan yn y perfformiad hyd yma eleni gyda 98.7% o gynadleddau wedi'u cynnal o fewn yr amser. Mae'n bwysig nodi bod hyn ond yn cyfeirio at un gynhadledd na ddigwyddodd ar amser ac mae'r perfformiad yn dal i fod yn dda.



Er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant a'r bobl ifanc rydym yn gofalu amdanynt yn teimlo'n ddiogel, gwnaethom ofyn iddynt sut maent yn teimlo ynghylch lle maent yn byw a'r bobl sy'n byw gyda nhw. Maen nhw wedi dweud wrthym ar y cyfan eu bod yn teimlo'n hapus, wedi setlo, yn derbyn gofal a chymorth da yn eu lleoliad. Pan roedd pobl ifanc yn dweud wrthym nad oeddent yn hapus, roedd hyn, gan amlaf, oherwydd y trefniadau ar gyfer gweld teulu a ffrindiau neu pan fu newidiadau i le roeddent yn byw. Rydym yn gweithio i wella hyn ac yn gwneud yn siŵr bod pob plentyn a person ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cymorth a chefnogaeth i ddatblygu a deall eu cynllun at y dyfodol. Pan fo person ifanc yn dweud yr hoffent gael person annibynnol i'w helpu i wneud penderfyniadau a chynlluniau, mae'r Cyngor yn darparu eiriolwr annibynnol.

## Wyddech chi?

**Cam-drin yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.** Gallai fod ar ffurf plentyn a person ifanc yn cael ei denu i berthnasau rhywiol gydag oedolion sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau fel rhoi anrhegion, sigarennau, sylw, cyffuriau, arian ac ati. Pa bynnag ffordd y mae hyn yn dechrau a sut bynnag mae'r plentyn/person ifanc yn teimlo am hynny – mae bob amser yn gorffen yn wael. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd drwy ddefnyddio'r rhyngwyd neu ffonau symudol. Ym mhob achos, mae gan y rhai sy'n camfanteisio ar y plentyn neu'r person ifanc bŵer drostynt, er enghraifft oherwydd eu hoed, rhyw, cryfder corfforol ac ati. I'r rhai sy'n cael eu cam-drin, mae poen eu profiad a phoeni na fydd neb yn eu credu yn aml yn golygu bod gormod o ofn arnynt i ddweud wrth rywun.

**Os ydych yn blentyn neu'n person ifanc sydd angen cymorth, ffoniwch Childline 0800 11 11.**

**Os ydych yn oedolyn syn amau bod hyn yn digwydd, rhaid i chi ffonio'r Heddlu.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar y cyd â Bwrdd Amddiffyn Plant Cwm Taf, wedi gwneud gwaith helaeth i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chanfyddiadau adroddiad Casey yn Rotherham. Mae strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant aml-asiantaeth a chynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau i amddiffyn plant sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio yn ein hardal.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithredu Polisi Amddiffyn Corfforaethol i sicrhau bod pob un o weithwyr y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau amddiffyn. Datblygwyd grŵp cyfeirio amddiffyn corfforaethol. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gynlluniau amddiffyn corfforaethol yn cael eu gweithredu.

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf hon yn atgyfnerthu'r dyletswyddau a roddir ar yr Awdurdod Lleol ar gyfer amddiffyn, yn enwedig oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r Cyngor yn croesawu'r newidiadau hyn i ddeddfwriaeth a byddwn ni'n monitro effaith hyn mewn perthynas â'n gwaith amddiffyn. Yn sgil llwyth gwaith cynyddol, mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer y staff sy'n gweithio yn yr adran Oedolion mewn Perygl yn yr Uned Amddiffyn.

Er bod gennym nifer uwch o achosion i ddelio â nhw, rydym wedi gallu rhoi cynllun ar waith i helpu i leihau risg cam-drin pellach mewn 93.8% (61 o 65) o achosion. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu diogelu a chefnogi oedolion mewn perygl yn effeithiol ac mae'n dystiolaeth o arfer da. Fodd bynnag, rydym yn ymdrechu i gyrraedd 100%.

### Wyddech chi?

Mae'r Cyngor yn cwrdd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), partneriaid perthnasol a rheolwyr/perchnogion cartrefi lle mae pryderon ynghylch ansawdd gofal. Diben y cyfarfodydd yw rhannu gwybodaeth a llunio cynllun gweithredu i sicrhau bod ansawdd y gofal yn gwella i breswylwyr. Perfformiad y darparwr yw hwn ac mae'n ceisio atal cartrefi rhag cau oherwydd arfer gwael.

Mewn ymateb i 'In Search of Accountability' gan Operation Jasmine, sef adolygiad cenedlaethol i esgeulustod pobl hŷn sy'n byw mewn rhai cartref gofal, cynhaliodd y Bwrdd Amddiffyn Oedolion weithdy aml-asiantaeth gyda chyfranogwyr gan gynnwys ymarferwyr a rheolwyr sy'n ymwneud â gofal pobl hŷn, yn ogystal ag oedolion a chynrychiolwyr gofalwyr. Gwnaethom ganolbwyntio ar bedwar maes yn ystyried: '*Sut mae gofal da yn edrych*', '*Sut ydym yn ymateb i bryderon*', '*Sut ydym yn darparu sicrwydd ar ansawdd gofal*' a '*Sut y gallwn gefnogi preswylwyr cartrefi gofal sydd heb ymwelwyr*'. Cafwyd canmoliaeth i'r gweithdy ac mae'r hyn a ddysgwyd o'r gweithdy wedi'i weithredu yn ein hymarfer amddiffyn.

### Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Pan fydd plentyn / person ifanc mewn perygl o gael eu cam-drin, cynhaliwyd cyfarfodydd, adolygiadau a phenderfyniadau yn brydlon, gyda 98.7% o gyfarfodydd yn cael eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ac mae 100% o adolygiadau amddiffyn plant yn cael eu cynnal ar amser;
- Er ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer yr oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, ar 31 Rhagfyr 2015, mewn 93.8% o achosion, rydym wedi gallu rheoli'r risg. Drwy hyn rydym yn golygu cael cynllun gweithredu ar waith i leihau'r risg o gam-drin pellach. Mae ein perfformiad fyrryn yn is na'r un cyfnod y llynedd (96.1%), ond mae ein perfformiad eleni yn dal i fod yn dda iawn;
- Mae ansawdd yr ymarfer gan bawb sydd ynghlwm ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i adrodd i'r Cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod enghreifftiau o arfer da yn cael eu rhannu a bod ymarfer yn gwella.



## **Beth y gallem wneud yn well?**

- Gwell mynediad i wybodaeth amserol o ansawdd o ran y broses amddiffyn;
- Parhau i annog a helpu rhagor o blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfarfodydd amddiffyn plant;
- Parhau i annog mwy o oedolion sydd mewn perygl o gam eu cam-drin i gymryd rhan yn y cyfarfodydd sy'n sôn am sut y gellir eu hamddiffyn.

## **Beth arall y mae angen i ni wneud yn ystod 2016 / 2017?**

Isod, rhestrir rhai enghreifftiau o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros y 12 mis nesaf yn y maes hwn:

- Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd yr ymarfer yn rheolaidd ac yn gweithio'n galed i wella ein perfformiad yn y meysydd lle nad ydym yn gwneud cystal a gwneud yn siŵr, pan fo ein perfformiad yn dda, ei fod yn aros fel hynny;
- Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth perthnasol i gydweithwyr ym meysydd eraill y Cyngor i sicrhau eu bod yn deall yn llawn eu rôl yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned a rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r Uned Amddiffyn i'w hystyried ymhellach a gweithredu arnynt;
- Byddwn yn sicrhau bod pob staff yn cael eu hyfforddi o ran eu cyfrifoldebau amddiffyn o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Byddwn yn gweithredu argymhellion adolygiad Hwb Amddiffyn Aml-asiantaeth i blant ac oedolion;
- Byddwn yn sicrhau bod yr argymhellion o 'In Search of Accountability' yn cael eu gweithredu a'u hadolygu;
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwrandao ar blant a phobl ifanc sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol ac ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid a theuluoedd i herio'r rheiny sy'n cyflawni'r drosedd hon;
- Byddwn yn parhau i weithio gyda theuluoedd yn gynnar i gefnogi at atal eu hamgylchiadau rhag dirywio ymhellach.

## Gwasanaethau i Oedolion



Ym Merthyr Tudful rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n holl bartneriaid i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a ddarparwn i chi fel, lle bynnag y bosibl, y gallwch barhau i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eich cymuned.

Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd eu hangen arnoch i fyw mor annibynnol â phosibl;
- Darparu taliadau uniongyrchol fel eich bod yn rhydd i drefnu eich gofal eich hun mewn ffordd ac ar amser sy'n addas i chi, neu drefnu i rywun eich helpu gyda'ch anghenion gofal personol;
- Gwneud yn siŵr, os ydych chi wedi bod mewn gwesty, eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch pan fyddwch yn dychwelyd adref;
- Hyrwyddo eich annibyniaeth drwy roi hyder i chi reoli tasgau personol ac ymarferol o ddydd i ddydd o amgylch eich cartref;
- Os na allwch fyw mwyach ar eich pen eich hun, eich helpu chi a'ch teulu i ganfod llety addas arall;
- Eich cefnogi chi fel Gofalwr i sicrhau eich bod yn gallu parhau â'ch rôl ofalu;
- Sicrhau bod ein pobl sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhan camfanteisio a niwed.

Er mwyn paratoi at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd i wella sut rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i chi. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael mynediad i well gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn eich cymuned leol, cyngor clir am y cymorth sydd ar gael i chi a mynediad amserol i'r cymorth sydd ei angen arnoch. Yn ddiweddarach yn 2016, byddwn yn gofyn i bobl sydd wedi gwasanaeth o'r farn am eu barn ar sut y gwnaeth hyn weithio a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau.

Mae'r Ddeddf newydd wedi rhoi dyletswydd ar y Cyngor a'i bartneriaid i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau a fydd yn atal neu'n oedi'r angen am ofal a chymorth. Bydd hyn yn golygu y byddwn yn parhau i weld mwy o bobl yn cael cymorth gartref ac yn eu cymuned leol. Swydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fydd parhau i ddarparu cymorth i'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn sy'n agored i niwed, pobl ag anabledau, salwch meddwl a phobl na allant wneud pethau i'w hunain heb gymorth.

Eleni rydym wedi parhau i fod yn llwyddiannus yn helpu pobl i fyw yn eu cymuned am hirach. Rydym wedi gwneud hyn drwy wneud yn siŵr bod y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn hyblyg ac yn cael eu monitro'n drwyadl i wneud yn siŵr eu bod o ansawdd da. Rydym wedi parhau i weithio gyda phobl ar gyfnod cynnar fel y gallant adfer eu hyder a'u gallu i gyflawni tasgau byw bob dydd. Mae hyn wedi golygu bod tua 58% yn llai o bobl angen gwasanaethau yn y tymor hwy. Mae rhai o'r sylwadau rydym wedi eu cael ynghylch hyn i'w gweld isod.

## Yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym ni!

Gofynnwyd i chi a ydych wedi cael budd o'r rhaglen Ailalluogi. Dyma rhai o'r pethau rydych wedi dweud wrthym:

- *"Gallaf nawr fynd allan o'r gwely yn haws a cherdded yn haws."*
- *"Rwyf wedi cyflawni'r hyn roeddwn i eisiau ei wneud."*
- *"Roedd y staff yn neis iawn. Byddwn i wedi hoffi aros yn hirach."*
- *"Byddwn i wedi hoffi cael mwy o amser."*
- *"Ydw, rwy'n gallu mynd o amgylch y tŷ yn llawer gwell"*
- *"Ydw, rwyf wedi gwella llawer ers y rhaglen Ailalluogi"*
- *"Mae wedi rhoi hyder i mi wneud tasgau bob dydd yn ddiogel"*
- *"Ydw i ddim yn credu y byddwn i'n cerdded cystal heb eu cyfraniad"*

Pan ofynnwyd i chi a ydych yn teimlo eich bod wedi cyflawni eich nodau – dyma beth ddywedoch:

- *"Rwyf wedi cyflawni llawer mwy"*
- *"Fe wnaeth i mi deimlo'n fwy hyder i drosglwyddo"*
- *"Rwyf bellach yn teimlo'n hyderus i wneud dishgled o de."*
- *"Na, ddim cweit, fe orffennodd yn gynnar gan i mi gael gowt"*
- *"Ydy, er mae dal angen i mi barhau â'r rhaglen ymarferion"*
- *"Ydw, rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn gwneud gweithgareddau arferol"*

Bydd y Ddeddf newydd yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am amrywiaeth llawer ehangach o wasanaethau y gallai fod eu hangen arnynt. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi codi'n raddol a disgwyliwn i hyn bara yn y blynyddoedd nesaf. Ar 31 Rhagfyr 2015, roedd 122 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol, ac roedd 69 ohonynt yn oedolion. Nid yw pawb am ddefnyddio taliadau uniongyrchol fel ffordd o gael gwasanaethau. Os byddai'n well gennych i beidio â gwneud hyn, byddwch yn dal i allu cael gwasanaethau rydym yn eu comisiynu a'u trefnu ar eich rhan. Ar 31 Rhagfyr 2015, roeddem yn cefnogi 1,714 o bobl yn y ffordd yma.

Rydym wedi parhau i weithio'n galed eleni gyda'n cydweithwyr ym maes iechyd i helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty mor gyflym â phosibl. I'r bobl hynny sy'n dychwelyd i'w cartrefi gyda phecyn o gymorth, rydym yn perfformio'n dda. Mae hyn oherwydd gwaith caled ein Tîmau Ymateb ac Ailalluogi Cychwynnol sy'n helpu pobl i ddatblygu eu hyder fel y gallant adennill eu hannibyniaeth. Lle bu oedi wrth ryddhau, y rhesymau dros hynny yw eu bod yn bobl ag anghenion arbennig iawn, sydd angen llety a chymorth arbenigol – sydd ddim bob amser ar gael yn ddigon cyflym. Rydym hefyd wedi gweld lleihad yn faint o gartrefi nyrsio sydd ar gael ar draws y rhanbarth sydd wedi effeithio ar hyn.

Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr ym maes iechyd, y sector gwirfoddol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i wella gwasanaethau ar draws y rhanbarth drwy ddefnyddio'r Gronfa Gofal Canolradd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Cydlynwyr Cymuned i helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau a gynhelir gan y sector gwirfoddol, ac wedi gweithio gyda'n gilydd i gynyddu'r gwasanaethau gwirfoddol yn yr ardal. Rydym hefyd wedi cydweithio i ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn gynt fel y gwasanaeth Rhyddhau Strôc Cynnar ac wedi cynyddu'r gwasanaethau sy'n helpu pobl i ddod yn fwy annibynnol. Rydym

hefyd wedi addasu nifer o eiddo ar draws Cwm Taf i ddarparu cartref byrdymor i bobl sy'n aros am addasiadau i'w cartrefi eu hunain.

## Wyddech chi?

Mae yna Gomisiynydd i Bobl Hŷn a gynhaliodd adolygiad o gartrefi preswyl a nyrsio o'r enw 'A Place Called Home'. Mae pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd wedi llunio cynllun gweithredu i wella ansawdd bywyd a gofal i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn hyrwyddwr i bobl hŷn ledled Cymru

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws Rhanbarth Cwm Taf i gyflawni gofynion y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer gweithredu mewn cartrefi gofal. I gefnogi hyn, rydym wedi datblygu pecyn cymorth sicrwydd ansawdd sy'n cynnwys ymgynghori rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Yn ogystal â hyn, rydym yn gyfrifol am gynnal ein harolygiadau ein hunain o gartrefi gofal yn ein hardal sy'n cynnwys siarad â phreswylwyr, eu teuluoedd a staff. Mae sylwadau a ddaw i law yn cael eu defnyddio i'n helpu i wella'r gwasanaethau lleol a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cyflawni i'r safonau uchaf.

## Beth rydych wedi'i ddweud wrthym ni!

Dyma ychydig o adborth a gafwyd ynghylch ein cartrefi preswyl:

- *"Hoffwn aros yma am weddill fy mywyd, achos rwy'n teimlo nawr mai dyma fy nghartref ac rwy'n hoffi'r holl bobl yma."*
- *"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar a charedig iawn. Does dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw. Maen nhw'n fodlon gwneud unrhyw beth i chi"*.
- *"Rwy'n teimlo eu bod wedi gwella fy hyder wrth ddelio â'r byd."*
- *"Rwy'n falch gyda gofal fy mherthnasau. Diolch yn fawr iawn"*.

Mae yna adegau, fodd bynnag, pan na allwn ni eich cefnogi mwyach i fyw'n ddiogel yn eich cartref eich hun. Os yw hyn yn digwydd, byddwn ni'n gweithio'n agos gyda chi a'ch teulu / gofalwr i ganfod y dewis arall gorau posibl. Nid yw hynny'n golygu'n awtomatig y byddech chi'n byw mewn cartref preswyl. Mae amrywiaeth o opsiynau eraill y gallech eu hystyried, gan gynnwys:

- **Llety gwarchod** - Mae 415 o unedau o lety gwarchod ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r holl lety gwarchod ym Merthyr Tudful wedi'u darparu gan Gymdeithas Dai.
- **Gofal Ychwanegol** – Os ydych chi'n byw mewn Gofal Ychwanegol, cewch eich llety eich hun gyda'ch drws blaen eich hun. Gallwch benderfynu pwy sy'n cael a phwy sydd ddim yn cael dod i'ch cartref. Mae gofal a chymorth 24/7 ar gael ar y safle os bydd angen i'ch helpu i aros yn y gymuned am hirach. Mae Gofal Ychwanegol yn ddewis go iawn i bobl na allant aros yn eu cartrefi gan fod eu hanghenion wedi newid.



- **Cynllun Bywydau ar y Cyd** – Mae'r cynllun bywydau ar y cyd yn cefnogi oedolion sy'n agored i niwed i fyw gyda gofalywyr am gyfnod byr neu'n barhaol. Mae'r lleoliadau wedi'u teilwra i'r unigolyn ac yn eu galluogi i gael cymorth i fyw yn fwy annibynnol.

Fel rhan o'n gwaith i wella gwasanaethau yn barhaus, rydym wedi newid y trefniadau ar gyfer dau o'n cartrefi grŵp preswyl anableded dysgu. Mae hyn yn golygu y gall y bobl sy'n byw yn y ddau gartref allu mwynhau ffordd o fyw fwy annibynnol lle mae'r gofal a'r cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion yn hyblyg.

Tîm ar y cyd yw'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ym maes Iechyd wedi'i leoli ym Mharc Iechyd Kier Hardie ac wedi'i gyd-leoli yn Nhîm Seiciatreg Henaint, y Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol Allgymorth ac Adfer a Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sylfaenol. Fel rhan o waith y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, mae'n rhaid i wni wneud yn siŵr bod cynlluniau unigol ar waith ar gyfer o leiaf 90% o'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Mae'n bleser gennym nodi fod gennym 99% o gynlluniau ar waith.

Mae'r Tîm Seiciatreg Henaint yn gweithio gyda phobl sydd â dementia. Nod y tîm yw i gynnal annibyniaeth pobl cyn hired â phosibl. Athroniaeth y tîm yw hyrwyddo cryfderau pobl i'w galluogi i barhau i fyw gartref yn eu cymunedau eu hunain. Mae gan y Tîm Seiciatreg Henaint gysylltiadau agos â'r Gymdeithas Alzheimer a darparwyr gofal dydd. Maent hefyd yn defnyddio cyfarpar fel teleofal a lifeline i sicrhau y cynhelir iechyd a lles pobl. Rydym hefyd yn helpu gofalywyr sy'n chwarae rhan hanfodol i ddarparu gofal a chymorth.

### **Wyddech chi?**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Gweithwyr Cymdeithasol a Nyrsys Seiciatrig Cymunedol wedi dechrau nifer o gyrsiau a sesiynau gwaith grŵp i bobl â salwch meddwl. Mae'r cyrsiau yn cynnwys: Clywed Lleisiau, Ymwybyddiaeth Ofalgar, grŵp Goroewyr Cam-drin Rhywiol, Ysgrifennu Creadigol a Grŵp Nofio.

Mae cael cyfle i drafod eich anghenion fel gofalwr yn bwysig. Os byddwch yn cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth, byddwn yn siarad â chi i ddechrau am yr hyn sy'n mynd yn dda a ble mae angen cymorth arnoch i wneud y pethau rydych eu heisiau. Drwy gael y sgwrs hon bydd hyn yn ein helpu ni i ddarparu'r wybodaeth, cyngor a chymorth sydd eu hangen arnoch i gyflawni eich rôl. Y llynedd, nodwyd gostyngiad mewn perfformiad yn cynnig asesiad i ofalwyr. Mae'r tueddiad hwn wedi para i 2015-2016 gyda 52.6% o ofalwyr yn cael cynnig asesiad ar 31 Rhagfyr 2015. Roedd y gostyngiad hwn mewn perfformiad yn sgil anawsterau staff sylweddol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, serch hynny, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y gofalywyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Ar 31 Rhagfyr 2015, roedd 96.3% o ofalwyr a gafodd eu hasesu wedi cael gwasanaeth. Mae'r perfformiad hwn yn dda ac yn welliant o'r llynedd (67.2%).


Yn gyffredinol, rydym yn credu bod ein cynnydd a'n perfformiad eleni wedi bod yn weddol dda gyda rhai meysydd angen gwella ymhellach. Rhestrir enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r meysydd lle mae angen i ni wella isod.

## Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?


- Rydym wedi parhau i weithio'n galed eleni gyda'n cydweithwyr lechyd i helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty mor gyflym â phosibl. Yn y sefyllfaoedd hynny lle gallwn ddylanwadu ar y canlyniad, er enghraifft, y bobl hynny sy'n dychwelyd i'w cartrefi gyda phhecyn o gymorth, rydym yn perfformio'n dda. Roedd hyn oherwydd gwaith caled ein Timau Ymateb ac Ailalluogi Cychwynnol.

Lle bu oedi wrth ryddhau o'r ysbyty, mae hyn wedi bod oherwydd bod gan y bobl anghenion arbennig iawn ac sydd angen llety a chymorth arbenigol, nad ydynt bob amser ar gael yn ddigon cyflym ac rydym hefyd wedi gweld lleihad yn nifer y cartrefi nyrsio sydd ar gael ar draws y rhanbarth sydd wedi effeithio ar hyn. Mae hyn yn golygu bod ein perfformiad presennol o 3.66 diwrnod ychydig yn is na'n perfformiad o 2.64 diwrnod am yr un cyfnod y llynedd. Mae'r gostyngiad hwn mewn perfformiad yn sgil amgylchiadau y mae gennym lai o reolaeth drostynt. Os caiff yr achosion penodol hyn eu tynnu o'r ffigur cyffredinol, ein cyfradd o oedi wrth drosglwyddo gofal fyddai 2.58

### 2015 / 2016 (Ebrill 2015 – Tachwedd 2015) Ein Perfformiad hyd yma .....



### Ein perfformiad dros y 5 mlynedd diwethaf



## Beth gallem ei wneud yn well?

- Pan fydd rhywun yn cael cymorth gennym bydd ganddynt gynllun unigol (o'r enw cynllun gofal) yr ydym yn cytuno â nhw arno. Dylai'r cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Er fod gan bawb cynllun gofal, mae ein perfformiad yn eu hadolygu wedi lleihau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Eleni nid ydym wedi gweld gwelliant hyd yma. Ar 31 Rhagfyr 2015, roedd 67.6% o'n cynlluniau gofal wedi cael eu hadolygu. Mae hyn yn is nag ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol (77.4%);
- Fel y soniwyd uchod, rydym wedi gweld dirywiad pellach yn nifer y gofaluwr sy'n oedolion sy'n cael cynnig asesiad.

Mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r ddau faes uchod lle mae angen i'n perfformiad wella.

## **Beth arall mae angen i ni wneud yn ystod 2016 / 2017?**

Byddwn ni'n parhau i wynebu nifer o heriau, fel pwysau ariannol parhaus a wynebir gan yr awdurdod lleol a gwaith parhaus o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu a gwella ein gwasanaethau ymhellach. Ynghyd â'n partneriaid, byddwn ni'n parhau i weithio'n galed i wneud yn siŵr eich bod yn cael y gwasanaeth gorau posibl y gallwn eu darparu.

Dros y 12 mis nesaf:

- Lle bynnag y bo'n bosibl byddwn yn parhau i weithio ar draws y rhanbarth gyda'n partneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r Trydydd Sector i'ch cefnogi i gyflawni'r canlyniadau rydych yn eu dymuno;
- Ynghyd â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru, bydd yn rhaid i ni adrodd ar fesurau perfformiad newydd. Bydd hynny'n cynnwys gofyn yn uniongyrchol i chi beth yw eich barn mewn perthynas â'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae hyn yn golygu y gall ein perfformiad ni a'ch safbwyntiau chi gael eu cymharu â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru mewn ffordd llawer symlach;
- Ynghyd â phob Cyngor arall bydd yn rhaid i ni barhau i wneud arbedion ac mae hyn yn golygu, wrth i amser fynd yn ei flaen, rydych yn debygol o weld yr effaith hon ar y gwasanaethau a ddarparwn a'r ffordd rydym yn eu darparu;
- Byddwn yn gweithio'n llawer agosach gyda chydweithwyr ym maes iechyd i wella ein prosesau ailalluogi a rhyddhau o'r ysbyty yn well i sicrhau, os bydd angen i chi fynd i'r ysbyty y gallwch ddychwelyd adref gyda'r cymorth sydd ei angen arnoch mor gyflym â phosibl;
- Byddwn yn adolygu ein trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau dydd i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod y gwasanaethau hyn wedi'u lleoli yn y gymuned.

## Gwasanaethau i Blant



Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn cynnwys amrywiaeth eang o dimau. Rydym yn gweithio gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yr Heddlu a'r maes Addysg. Rydym yn cydweithio i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn ddiogel, yn iach ac yn cael pob cyfle i dyfu a datblygu yn oedolion annibynnol. Rydym yn gweithio'n gynyddol gyda'r sector gwirfoddol wrth i ni ddatblygu ein gwaith atal.

Cefnogi teuluoedd i amddiffyn plant a phobl ifanc yw un o'r cyfrifoldebau mwyaf sydd gennym a, phan fo angen, byddwn yn parhau i ofalu am bobl ifanc i'w gwneud yn ddiogel. Mae ein gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth teuluol yn wynebu sefyllfaoedd fwyfwy cymhleth a heriol wrth iddynt wneud gwaith heriol yn amddiffyn pobl ifanc ac yn chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo canlyniadau rhagorol. Rydym yn falch iawn o'n gweithlu a'r canlyniadau maent yn eu cyflawni.

Mae'r gwaith a wnawn yng ngwasanaethau plant hefyd yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio'n galed i baratoi ar gyfer gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy:

- Ganolbwyntio ar ddarparu cymorth i deuluoedd ar gyfnod cynnar (atal);
- Gweithio gyda phartneriaid yn y Hwb Bwrdd Amddiffyn Aml-asiantaeth (MASH) i wneud yn siŵr ein bod yn amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn gwrandao ar aelodau'r teulu ac yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fel y gallwn leihau faint o amser rydym yn cynnwys y teuluoedd;
- Gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio fel ein bod yn parhau i'ch helpu i nodi eich canlyniadau lles a'ch helpu i'w cyflawni;
- Gwellu'r ffordd rydym yn trefnu ac yn cynllunio ein gwasanaethau drwy fod yn glir ynghylch yr hyn rydym am ei gyflawni a chynnwys ein staff yn hyn o beth. Rydym hefyd wedi edrych ar gyfleoedd i wrando ar y cyhoedd a phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ynghylch ein cynlluniau. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn y flwyddyn i ddod.

Mae ein flwyddyn gyntaf o weithredu'r Hwb Amddiffyn Aml-asiantaeth wedi mynd yn dda ac fel y nodwyd yn adran 'Amddiffyn' yr adroddiad hwn byddwn yn adolygu pa mor dda y mae wedi mynd.

Mae darparu cymorth i deuluoedd ar gyfnod cynnar (atal) yn parhau i fod yn flaenrol, ac rydym wedi dechrau gweld peth llwyddiant yn hyn a bellach mae gennym 15 yn llai o blant sy'n derbyn gofal na'r hyn yr oedd gennym yr adeg hon y llynedd. Rydym wedi cyflawni hyn drwy weithio'n wahanol gyda theuluoedd i sicrhau y gall plant aros adref pan fo hynny'n ddiogel.



Rydym hefyd wedi gweithio'n galed gyda theuluoedd estynedig fel y gallent ddarparu lleoliad arall diogel pan nad yw'n bosibl i blentyn aros adref; ac yn rhai achosion maen plant wedi dychwelyd adref. Bydd y gwaith hwn yn parhau ac mae wedi ei gynnwys mewn Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal i'n helpu i gadw ar y targed.

Gwasanaeth ataliol arall yw'r Gwasanaeth 'Plant mewn Angen Uwch' sydd bellach wedi bod ar waith ers dros ddwy flynedd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i helpu teuluoedd i wneud newid am oes ac atal plant rhag bod yn derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yng Nghanolfan Deulu Merthyr Tudful ac yn darparu ystod eang o gymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nifer benodol o blant ar unrhyw adeg benodol sy'n caniatáu i'r gweithiwr cymdeithasol weithio'n agos gyda theuluoedd a'u cefnogi yn eu cymuned. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda theuluoedd mewn ffordd sy'n helpu i wneud newidiadau i'w bywydau a fydd yn cadw plant yn ddiogel drwy gydol eu plentynod. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn achosion lle mae'r pryderon yn ddifrifol ac rydym wedi gweld tystiolaeth ein bod wedi gallu osgoi plentyn rhag derbyn gofal o ganlyniad.

Mae'r Ganolfan Deulu hefyd yn darparu gwasanaethau eraill sy'n gweithio gydag unigolion neu'r teulu cyfan i'w helpu i gadw plant yn ddiogel rhag esgeulustod a cham-drin, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ganolfan Deulu wedi ymestyn ei gwaith i gynnwys Cynadleddau Grŵp Teulu. Mae'r ffordd hon o weithio yn helpu teuluoedd i ganfod eu hatebion. Mae staff y Ganolfan Deulu hefyd wedi gwneud gwaith sy'n galluogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol neu gamddefnyddio alcohol a chyffuriau i gynyddu eu diogelwch a lleihau risgiau. Mae'r gwasanaeth hwn yn perfformio'n dda.

Ar y cyfan, mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi dweud wrthym eu bod wedi canfod cymorth y Ganolfan Deulu yn ddefnyddiol wrth wella eu gwybodaeth, sgiliau a gallu i fod yn rhiant da. Mae rhieni wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys i raddau helaeth yn y broses. Cadarnhawyd hyn gan waith yr arolygiaeth gofal a gwasanaethau cymdeithasol a ymwelodd â'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Gwelir rhai sylwadau ac adborth gan deuluoedd isod:

### **Yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym ni!**

- *"Fe helpodd fi i weld y gwahaniaeth rhwng perthynas iach a pherthynas nad yw mor iach"*
- *"Teimlo'n berson mwy hyderus"*
- *Cyn gweithio gyda'r staff yn y ganolfan deulu: "Nid oeddwn yn credu y byddai unrhyw fudd i fynd yno. Pam oedd angen i mi fynd? Ddim yn hapus bod pawb yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen". Ar ôl gweithio gyda staff y ganolfan deulu: "Roedd yn ddefnyddiol i ddeall eu gweithredoedd ac yn gallu dweud eu bod wedi troi eu bywydau o gwmpas. Diolch am beidio fy marnu. Roedd y cwrs yn wych – dylai fod yn gynharach cyn i beth gyrraedd y pen"*
- *"Sylweddolais nad oeddwn i ar fy mhen fy hun. Nid oes neb yn barnu ei gilydd. Roedd angen hyn arnaf i symud ymlaen o fy ngorffennol"*
- *"Mae wedi fy helpu i ddeall mwy am fy mabi. Nid oeddwn i'n ymddiried llawer yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol – ond rwyf yn nawr. Rwyf mewn lle llawer gwell nawr"*
- *"Mae fy mhlant yn fwy hyderus nawr. Nid oeddwn i eisiau'r gwaith, ond rwy'n falch fy mod wedi ei wneud nawr"*

Pan wnaeth yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ddod i ymweld â'r Gwasanaethau Plant mewn Angen Uwch, nododd: *Gwnaeth un o ddefnyddwyr y gwasanaeth wir werthfawrogi'r ffydd y dangosodd ei gweithiwr cymdeithasol ynnddi. Gwelodd hyn fel y gwahaniaeth gwnaeth y gwasanaeth i'w helpu i wneud cynnydd yn ei gallu fel rhiant.*

Mae'r gwaith sy'n cael ei gwblhau yng Nghanolfan Deulu Merthyr Tudful yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn unol â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Teulu Dwys hefyd yn wasanaeth ataliol sy'n darparu cymorth arbenigol i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan riant yn camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dweud wrthym bod y teuluoedd sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth yn aml yn gallu gwneud newidiadau sy'n golygu nad yw plant mewn perygl mwyach a bod y newidiadau hynny yn para. Dros y flwyddyn nesaf, bydd y Gwasanaeth Cymorth Teulu Dwys yn cynyddu'r gwasanaethau maent yn eu darparu i gynnwys gweithio gyda theuluoedd lle mae pryderon o gam-drin domestig. Byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth weithio gyda chymaint o deuluoedd ym Merthyr Tudful â phosibl.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cefnogi 84 o blant a phobl ifanc sydd ag anabledd. Rydym yn cydweithio â'n partneriaid, plant a'u teuluoedd i sicrhau bod plant sydd ag anableddau yn cael mynediad i'r cyngor, cymorth a gwasanaethau cywir fel eu bod yn cael yr un cyfleoedd â phob plentyn a pherson ifanc arall ym Merthyr Tudful. Mae teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw wedi dweud wrthym bod y trefniadau sydd gennym i gefnogi pobl anabl ifanc sy'n dod yn fwy annibynnol ac yn symud i fod yn oedolion yn dda.

Ariennir Barnardos gennym ni i ddarparu gwasanaeth i Ofalwyr Ifanc yn ein hardal. Mae'r cymorth a ddarperir i ofalwyr ifanc yn dda. Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Barnardos yn gwneud yn dda ac yn ystod y flwyddyn bu cynnydd yn nifer y gofalwyr ifanc sydd wedi cael cymorth (72 o bobl ifanc o gymharu â 65 y llynedd).

Gwnaeth Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf uno i ddarparu un gwasanaeth ar draws y ddwy ardal (ardal Cwm Taf). Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnwys nifer o sefydliadau sy'n cydweithio i helpu pobl ifanc a allai fod wedi bod mewn trafferthion gyda'r gyfraith. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i'r person ifanc (a'u teulu) er mwyn newid eu bywydau er gwell a'u helpu i aros allan o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ar y cyfan, mae ein perfformiad yn y maes hwn yn dda. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf yn isel. Rydym hefyd wedi parhau â'n llwyddiant yn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd ymlaen i gael dedfryd o garchar – er enghraifft, yn 2009-2010, nifer y bobl ifanc a gafodd dedfryd o garchar ym Merthyr Tudful oedd 32. Erbyn diwedd y flwyddyn ddiwethaf, gostyngodd hynny i 6 pherson ifanc ac eleni dim ond 1 person ifanc gafodd dedfryd o garchar.



Mae'r canlyniad hwn yn dangos bod atal yn cael effaith go iawn ar fywydau pobl ifanc. Pan edrychwn ar gyfraddau aildroseddu, gwelwn fod nifer fach o bobl ifanc yn ymwneud â nifer uchel o droseddau. Mae hyn yn dweud wrthym bod angen i ni weithio gyda'r bobl ifanc hynny sy'n cyflwyno'r heriau mwyaf.

Mae'r Gwasanaeth Sefydlogrwydd wedi parhau i gefnogi grŵp cyfranogi Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Gadael Gofal o'r enw 'The Rainbows'. Byddwn yn gwneud yn siŵr, drwy'r grŵp hwn, bod llais plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal yn cael ei glywed a bod ganddynt bŵer i ddylanwadu ar newidiadau i'r pethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod Bwrdd Rhianta Corfforaethol y Cyngor yn cymryd arweinyddiaeth gan blant sy'n derbyn gofal.

Mae Gofalwyr Maeth Merthyr Tudful yn chwarae rhan bwysig iawn drwy ddarparu cartref, sefydlogrwydd a lle yn y gymuned i blant a phobl ifanc. Cyn belled ag sy'n bosibl, rydym yn ceisio canfod lleoliad maeth a fydd yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau fel eu bod yn setlo'n dda. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn osgoi newid ysgol pobl ifanc.

Yn ystod 2015-16, mae nifer y plant neu bobl ifanc sydd wedi symud dair gwaith neu fwy wedi para'n isel gyda dim ond 10 plentyn neu berson ifanc yn cael eu heffeithio gyda'r rhai o'r rhain yn symudiadau wedi'u cynllunio i fyw gydag aelodau o'r teulu, cael eu mabwysiadu neu symud at ofalwyr hirdymor ar ôl llunio fersiwn derfynol o'u cynllun sefydlogrwydd. Mae'r bobl ifanc sydd wedi symud fwy na thair gwaith mewn blwyddyn yn ganran fechan iawn o'n poblogaeth sy'n derbyn gofal ac rydym yn gwneud yn well na'r ffigurau diweddaraf ar gyfartaledd Cymru sef 9%.

### Wyddech chi?

Ym Merthyr Tudful mae 49 o Ofalwyr Maeth prif ffrwd wedi'u cymeradwyo yn cynnig 88 o welyau yn ogystal â thri lleoliad 'Pan fyddaf yn barod' a 2 ofalwr wedi'u cymeradwyo ar gyfer darpariaeth seibiant yn unig. Hefyd mae gennym 13 o leoliadau perthynas wedi'u cymeradwyo ar gyfer 17 o blant a phobl ifanc.

Yn ystod 2015-16 gwnaethom asesu a chymeradwyo 7 Gofalwr Maeth newydd, gan gynnwys Gofalwyr Brys yn dilyn ymddeoliad ein darpariaeth brys blaenorol a 3 Gofalwr Perthynas. Bu hefyd 11 enghraifft o Ofalwyr Maeth perthynas yn cael Gorchymyn Llys i ddarparu cartref diogel i bobl ifanc, sy'n golygu nad yw'r bobl ifanc hynny yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol mwyach.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal tan y byddant yn 21 oed, oni bai eu bod mewn addysg uwch ac os felly, yr oedran yw 24. Ar hyn o bryd, mae gennym 5 person ifanc yn mynychu prifysgolion ledled y DU Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc a'n partneriaid i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar bethau fel addysg a hyfforddiant, sgiliau byw'n annibynnol, cael swydd, ble i fyw neu gyllidebu.

Rydym hefyd yn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i lunio eu cynllun at y dyfodol ac, ar hyn o bryd, mae gan 90% o'n bobl ifanc sy'n gadael gofal y math hwn o gynllun.

Rydym hefyd wedi mesur nifer y bobl sy'n gadael gofal yr ydym mewn cysylltiad â nhw. Ar 31 Rhagfyr 2015, roeddem mewn cysylltiad â 15 allan o 17 (88.2%) o rai sy'n gadael gofal; sy'n welliant o'r un cyfnod y llynedd (77.8%). Ar ôl i ni edrych yn agosach pam nad ydym mewn cysylltiad â phawb sydd

wedi gadael gofal, gwelwyd fod nifer fach yn dewis peidio â chael cysylltiad â ni. Byddwn bob amser yn sicrhau ein bod ar gael i roi cyngor i unrhyw un sy'n gadael gofal, beth bynnag fo'u hoed, os byddant yn cysylltu â ni.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd rheolwr lythyr gan berson oedd yn gadael gofal a ddywedodd:

*"... Nid ydw i wedi cael cyfle i ddiolch i chi i gyd am bopeth rydych wedi'i wneud i fi. Rwy'n sylweddoli nawr heblaw amdanoch chi yn mynd allan o'ch ffordd, fyddwn i ddim ble rydw i nawr...felly dyma fi'n diolch i chi am y caredigrwydd a'r ffyrdd rydych wedi dangos ynof i – hyd yn oed y cariad caled! Rwy'n siŵr nad yw'n hawdd gwneud eich gwaith ond os ydych chi'n gwneud hanner cymaint i eraill ag yr ydych wedi'i wneud i mi yna rydych chi'n gwneud gwaith da. Diolch am bopeth!"*

## **Ein Perfformiad – Ble rydym yn gwneud yn dda?**

Er gwaetha'r heriau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd, ar y cyfan, mae perfformiad y Gwasanaethau Plant yn dda.

Er enghraifft; pan fo plentyn neu berson ifanc yn 'derbyn gofal', rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn mynd i fyw mewn teulu lle byddant yn hapus ac yn setlo ac mae angen rhoi cynllun ar waith ar ddechrau eu lleoliad. Rhaid adolygu'r cynlluniau hyn gyda'r plentyn neu'r person ifanc ar adegau penodol – mae'r hyn maent yn dweud wrthym am eu profiadau yn bwysig iawn. O ganlyniad i waith caled, gwell cynllunio a gwell trefniadau, roedd pob un o'n plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael cynllun cyn dechrau eu lleoliad a chafodd y rhan fwyaf o gynlluniau (99.7%) eu hadolygu ar amser ac maent wedi gwella mewn nifer o feysydd.

Rydym hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau i'n perfformiad yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cyfarfod â'r gweithiwr cymdeithasol yn ystod eu hasesiad;
- Cynnydd ym mha mor aml y mae gweithiwr cymdeithasol y n ymweld â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal;
- Lleihau'r amser a gymerir i gwblhau asesiadau;
- Cynnydd yn nifer y gofalwyr ifanc sy'n derbyn gwasanaeth.

Isod, rhestrir rhai enghreifftiau o'r hyn y mae'n rhaid i ni wneud yn well.

## **Beth gallem ei wneud yn well?**

- Gwella pa mor aml yr ymwelir â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal;
- Gwella nifer y bobl sy'n derbyn gofal yr ydym yn cadw mewn cysylltiad â nhw. Gwneud yn siŵr bod cynllun ar waith tra'n cynyddu'r nifer sydd mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ac sydd â chynghorydd personol.

## Beth arall mae angen i ni wneud yn ystod 2016-2017?

Mae rhai o'r pethau y mae angen i ni eu gwneud yn ystod y 12 mis nesaf yn cynnwys:

- Yn ystod 2016-17, byddwn yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a fydd yn helpu pobl ifanc a theuluoedd i wybod sut i fynd ati i gael cymorth yn gynnar cyn i broblemau waethygu . Wrth ddarparu hyn, ein nod yw gwella gallu teuluoedd i ddewis y cymorth cynnar a gânt;
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu effeithiolrwydd yr Hwb Amddiffyn Aml-asiantaeth ymhellach;
- Byddwn yn edrych i leihau nifer yr achosion o gyfarfodydd sy'n cael eu hailadrodd â'r un teuluoedd;
- Byddwn yn cynyddu nifer y teuluoedd sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Plant mewn Angen Uwch i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio pob cyfle i helpu teuluoedd i wneud newid parhaol yn gynt;
- Byddwn yn parhau i weithio o dan y Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal, gan wneud yn siŵr ein bod bob amser yn ystyried y teulu yn gyntaf a lleoliadau yn agosach at adref;
- Byddwn yn recriwtio rhagor o Ofalwyr Maeth i wneud yn siŵr bod nifer ddigonol o leoliadau ar gyfer y mathau o sefyllfaoedd a phlant a phobl ifanc sydd angen lleoliadau maeth yn agosach at adref;
- Byddwn yn parhau i wella'r amser a gymerir i gwblhau'r broses fabwysiadu;
- Byddwn yn gwrandu ar deuluoedd i wella eu dealltwriaeth o 'sut mae da yn edrych' i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu canlyniadau clir i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw;
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar ein Bwrdd Rhianta Corfforaethol i wneud yn siŵr ein bod yn herio ein hunain i wella bywydau pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gyson.

## Rheoli ein Busnes



Mae'r adran hon yn edrych ar rai o feysydd pwysig eraill ein gwaith nad ydynt o reidrwydd yn neidio i'r cof pan fyddwch yn meddwl am adran gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: datblygu staff a hyfforddiant; cyllid a chodi tâl; contractio; canmoliaeth a chwynion.

Mewn ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws Cwm Taf i ddatblygu uned hyfforddi rhanbarthol ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac ein gofynion hyfforddi staff yn gyffredinol. Dechreuodd y gwasanaeth hyfforddi rhanbarthol newydd ei waith ar 1 Ebrill 2016. Mae hyn yn golygu y bydd gan ein staff fynediad i ystod eang o hyfforddiant a fydd yn eu helpu i wneud eu swydd yn well a gwneud yn siŵr eich bod yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau rydym yn eu cynnal yn agored i'r sector gwirfoddol a'r sector annibynnol, gofalwyr a sefydliadau gofal cymdeithasol. Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ionawr 2016 rydym wedi cynnal 329 o gyrsiau. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi hyfforddi 2,193 o bobl.

Ym mis Ionawr 2016:

- roedd 18% o ofalwyr maeth yn meddu ar gymhwyster cydnabyddedig. Mae 4% yn gweithio tuag at y cymhwyster ar hyn o bryd ac nid oedd 77% yn meddu ar eu cymhwyster targed. Mae'n bwysig nodi bod y nifer isel o rai sy'n meddu ar gymhwyster o ganlyniad i ymgyrch recriwtio llwyddiannus a throsiant Gofalwyr Maeth;
- roedd 89% o'n staff gofal preswyl yn meddu ar gymhwyster cydnabyddedig. Mae 4% yn gweithio tuag at y cymhwyster hwn ar hyn o bryd ac nid yw 7% yn meddu ar eu cymhwyster targed.

Mae strwythur y Tîm Contractau wedi newid yn ystod y flwyddyn gyda'r swyddogaeth Contractio a Chaffael yn symud i'r Tîm Corfforaethol, tra bod y swyddogaeth monitro wedi cryfhau drwy ychwanegu swydd Uwch Swyddog Monitro. Mae hyn wedi ein galluogi i ymestyn y cylch gwaith monitro i gynnwys gwasanaethau eraill nad oeddent yn cael eu monitro yn flaenorol.

Mae ein Tîm Contractau/Caffael yn gwneud yn siŵr ein bod ond yn prynu gwasanaethau o'r ansawdd gorau ac yn cynnig y gwerth gorau am arian i bobl Merthyr Tudful. Ar hyn o bryd mae gennym 290 o contractau yn weithredol ar gyfer ystod eang o wasanaethau wedi'u comisiynu. Mae'r Tîm Monitro Contractau yn ymweld yn rheolaidd â darparwyr i wneud yn siŵr bod ansawdd y gwasanaeth maent yn darparu o'r safon orau posibl. Yn ystod 2015-16 gwnaethom gwblhau 908 o ymweliadau monitro i ystod o wasanaethau. Mae hyn yn gynydd ers y llynedd ac yn welliant yn ein perfformiad.

Eleni rydym wedi datblygu Datganiad Comisiynu ar y Cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r Trydydd Sector. Mae hyn yn nodi sut rydym yn gweithio'n agosach at ein gilydd yn y dyfodol wrth i ni ddatblygu gwasanaethau i ateb yr angen yn lleol.

Eleni rydym hefyd wedi gweithio gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf i gomisiynu gwasanaethau gofal cartref ar y cyd. Bydd y contract newydd hwn ar draws Cwm Taf yn dechrau ym mis Hydref 2016 a byddwn yn sicrhau y gallwn gael yr ansawdd gorau a gwerth am arian i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r Cyngor yn codi tâl am rai o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ac mae'r Tîm Cyllid a Thaliadau yn sicrhau bod pobl yn talu'r swm cywir ar yr amser cywir. Cafodd 84% o ddefnyddwyr gwasanaeth newydd sy'n cael cymorth yn y gwasanaethau cartref a 76% o bobl mewn gofal preswyl asesiad ariannol ar amser. Mae hyn o dan ein targed o 95% ac rydym yn parhau i weithio i wella'r ffigur hwn.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu cymorth i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned, yn aml mewn sefyllfaoedd anodd iawn. Er ein bod yn anelu at ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl, mae adegau pan na fyddwch yn hapus gyda'r hyn rydym wedi'i wneud, pan fydd pethau yn mynd i'r gwrthwyneb i'r hyn rydych yn ei ddisgwyl neu pan na fyddwn wedi gwneud rhywbeth rydym wedi dweud y byddem yn ei wneud. Mae ein Gwasanaeth Cwynion yno i'ch helpu pan fydd hyn yn digwydd. Mae'n bwysig i ni os bydd angen i chi gwyno am ein gwasanaeth ein bod yn gwranddo arnoch chi'n iawn. Byddwn yn gweithio gyda chi ac yn ceisio datrys eich cwyn mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

Eleni, hyd yma, mae 42 o gwynion newydd wedi dod i law. Gwnaethom ddatrys 79% o'r cwynion hyn yn llwyddiannus pan wnaethoch ddod atom ni i ddechrau gyda'ch pryderon (cyfnod un). Mae'r amser a gymerwyd i ddatrys cwynion cyfnod un wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hyd yma, mae 61% o'n cwynion wedi'u datrys o fewn 15 diwrnod gwaith – sy'n welliant ar berfformiad y flwyddyn flaenorol (51%). Er ein bod yn gwneud ein gorau i ddatrys cwynion o fewn 15 diwrnod gwaith, weithiau mae angen i ni gymryd ychydig yn hirach fel y gallwn ymchwilio i faterion a'u datrys yn briodol.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gwynion. Rydym yn parhau i ddysgu o gwynion gan ein bod yn credu eu bod yn rhoi adborth gwerthfawr i ni ar pa mor dda rydym yn gwneud a beth sydd angen i ni wneud i ddatblygu a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.

Mae hefyd yn ddefnyddiol gwybod pryd rydym yn cael pethau'n iawn. Hoffem glywed gennych chi pan fyddwch wedi cael profiad cadarnhaol o'n gwasanaethau a lle rydym wedi gwneud gwahaniaeth yn ein bywyd. Hyd yma eleni rydym wedi cael 8 canmoliaeth am ein gwasanaeth.

Mae angen i'r Awdurdod Lleol gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar berfformiad ar draws ei Wasanaethau Cymdeithasol. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac mae gennym brosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y wybodaeth hon yn aros mor gywir a diweddar â phosibl. Mae'n bwysig i ni ddeall pa mor dda rydym yn gwneud a sut rydym yn cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn ein helpu i nodi meysydd lle mae angen i ni wella ein harfer, gwneud newidiadau i'n gwasanaeth, mynd i'r afael â'r pethau sy'n ein hatal rhag cyflawni perfformiad da a helpu rheolwyr i wneud penderfyniadau a chynllunio.

Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd, o fis Ebrill 2016, bydd y wybodaeth a gasglwn a'r ffordd rydym yn ei chasglu yn newid. Bydd angen i ni gasglu gwybodaeth ychwanegol nawr ac adrodd ar y gwahaniaeth a wnawn i fywydau pobl.

fel rhan o'r trefniadau newydd, os ydych yn cael gofal a chymorth gennym, gofynnir i chi gwblhau holiadur byr (a fydd yn ddi-enw). Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae'r gofal a'r cymorth rydych wedi'i gael wedi helpu eich llesiant fel eich bod yn hapus, iach, diogel a bodlon gyda'ch bywyd a beth i'w wneud.

### Wyddech chi?

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Mesur Perfformio newydd a gwybodaeth arall yn ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Hafan > Pynciau > Iechyd a gofal cymdeithasol > Gwasanaethau cymdeithasol > Mesur lles > Fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol

### Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn pennu isafswm targedau cymwysterau ar gyfer grwpiau penodol o staff, fel gofalfyr maeth a staff gofal sy'n gweithio yn ein cartrefi preswyl. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol o fewn yr Awdurdod Lleol wedi perfformio'n dda ac wedi rhagori ar y targedau hyn am rai blynyddoedd;
- Eleni rydym wedi bod yn gweithio gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ddatblygu gwasanaeth hyfforddi ar y cyd. Dechreuodd hyn ar 1 Ebrill 2016;
- Mae gan yr holl wasanaethau rydym wedi eu comisiynu gontract priodol ar waith a gaiff ei adolygu yn unol ag amserlen y cytunwyd arni;
- Rydym wedi lleihau'r amser mae'n cymryd i ddatrys eich cwynion yn llwyddiannus a phan fydd y cwynion mwy cymhleth wedi'u hadolygu, mae'r penderfyniadau gwreiddiol wedi'u cadarnhau – sy'n golygu ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir yn y lle cyntaf.

### Beth allem ei wneud yn well?

- Er ein bod wedi lleihau'r amser mae'n cymryd i ddatrys eich cwynion, hoffem wella nifer y cwynion rydym wedi'u datrys yn llwyddiannus mor gynnar â phosibl;
- Mae angen i ni wella nifer yr asesiadau ariannol rydym yn eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith. Er bod ein perfformiad wedi gwella, mae'n dal i fod o dan ein ffigur targed o 95%.

### Beth arall y mae angen i ni ei wneud yn ystod 2016-2017?

Mae rhai o'r pethau mae angen i ni eu gwneud dros y 12 mis nesaf yn cynnwys:

- Gweithredu'r trefniadau taliadau newydd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Gweithredu'r Fframwaith Mesur Perfformiad newydd fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Gweithredu'r trefniadau hyfforddi newydd ar draws Cwm Taf.



## Adran 3: Gwerthfawrogi eich Barn

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, neu os hoffech rannu eich safbwyntiau a'ch profiadau, cysylltwch â ni.

### Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â ni fel a ganlyn:

**Ffôn:** (01685) 725052

**E-bost:** [ACRF@merthyr.gov.uk](mailto:ACRF@merthyr.gov.uk)

**Ysgrifennu at:** **Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor**  
**Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Y Ganolfan Ddinesig  
Castle Street  
Merthyr Tudful  
CF47 8AN